# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**

**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 12 Rhagfyr 2024

Amser: 09.30 - 11.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14201

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Hannah Blythyn AS (yn lle Rhianon Passmore AS) |
| Tystion: | Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Sian Giddins (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS. Dirprwyodd Hannah Blythyn AS ar ei rhan.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC) – 2 Rhagfyr 2024**

**2.2 PTN 2 – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: 42ain Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig – 6 Rhagfyr 2024**

**2.3 PTN 3 – Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Gyllideb Atodol Gyntaf 2024-25 – 2 Rhagfyr 2024**

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 gan y tystion a ganlyn: Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg i ofyn am wybodaeth ychwanegol am Gyllideb Ddrafft 2025-26.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 6 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019: Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol

6.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu ar yr adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, a chytunodd ar y camau gweithredu a oedd wedi'u cynnwys yn y papur.